

Cofio Luis Palau – a'i gysylltiadau â Chymru

Ddechrau mis Mawrth eleni daeth y newyddion trist i law am farwolaeth yr efenglydd byd-enwog Luis Palau yn 86 mlwydd oed, a hynny yn dilyn brwydr yn erbyn cancr. Yma, mae Aled Davies, sy'n cofio gwrando ar Palau yn siarad ym Mangor fel rhan o'r ymgyrch Dweud wrth Gymru yn 1989, yn olrhain ei gysylltiadau â Chymru dros ddegawdau, gan gyf-weld nifer a fu'n cydweithio ag ef dros y blynyddoedd.



Luis Palau

Efenglydd Cristnogol rhyngwladol oedd Luis Palau; roedd yn byw yn Portland yn yr Unol Daleithiau. Fe'i ganed yn yr Ariannin ond symudodd i Portland er mwyn dilyn cwrs gradd mewn Astudiaethau Beiblaidd. Roedd gan Palau berthynas hir ac agos gyda'r efenglydd Billy Graham, ac mae llawer wedi cyfeirio ato fel olynnydd teilwng iddo. Fe'i disgrifiwyd fel 'un o ffigurau Cristnogol efengylaidd mwyaf blaenllaw'r byd', ac fe'i cofir yn arbennig oherwydd ei ddawn i gyfathrebu â phobl ifanc a'i ymdrechion i estyn allan at arweinwyr crefyddol a gwleidyddol er mwyn mynd i'r afael â materion cymdeithasol fel digartrefedd a thlodi. Yn 2017, amcangyfrifwyd iddo rannu neges Iesu Grist â 30 miliwn o bobl mewn 70 o wledydd.

Dywedodd Palau iddo gael ei dröedigaeth Gristnogol yn 12 oed, ac o'r foment honno bu iddo neilltuo'i fywyd i Grist. Clywodd Luis yr efenglydd Billy Graham yn pregethu am y tro cyntaf ar ddarllediad radio o Portland, Oregon, tra oedd yn dal i fyw yn yr Ariannin yn 1950, ac fe gafodd ei ysbrydoli ganddo. Cyn hir, roedd yn gweithio i Graham fel cyfieithydd Sbaeneg ac fel efenglydd. Yn 1970, cyfrannodd Graham arian er mwyn i Palau allu dechrau ei weinidogaeth ei hun, ac erbyn hyn mae'r gwaith hwnnw wedi cyrraedd pob rhan o'r byd. Ers hynny, mae Palau wedi cynnal llawer o wyliau ac ymgyrchoedd efengylu ar raddfa fawr ledled y byd.

Un arall a ddaeth o'r Ariannin i Gymru yw Isaias Grandis, sy'n weinidog gyda'r Bedyddwyr ac yn byw efo'i deulu yn Llanddarog. Meddai Isaias wrth gofio am Palau:

Bydda i wastad yn cofio mynd i un o *campañas* Luis Palau yn Buenos Aires, yn yr Ariannin, yn ystod yr amser pan o'n i'n astudio Diwinyddiaeth yng Ngholeg Casa Bíblica Quilmes. Roedd miloedd o bobl yno, ac o flaen ein llygaid roedd llawer yn penderfynu derbyn Iesu Grist yn eu bywydau. Roeddwn i'n meddwl am y cenhadwr o Gymru wnaeth ddylanwadu ar fywyd Luis drwy rannu'r efengyl yn yr Ariannin. Efallai mai nifer bach o bobl ddaeth yn Gristnogion ar ôl gwasanaeth y Cymro o ghenhadwr yn Argentina, a Luis Palau yn eu plith.

Ond tybed oedd y cenhadwr yma'n dychmygu faint o filoedd fyddai'n dod i adnabod ein Gwarddwr Iesu Grist trwy'r dyn ifanc yma, Luis Palau? Mae'n rhaid i ni'r Cristnogion chwilio am ewyllys Duw ar gyfer ein bywydau heddiw, a beth bynnag yw'r gwasanaeth y bydd yr Arglwydd yn gofyn i ni ei gwblhau, bydd yn dda os ydyn ni'n ei wneud er clod iddo Ef. Amen.

Mae Luis Palau a'i deulu bob amser wedi teimlo dyled a diolchgarwch i'r cenhadon o Gymru a aeth i'r Ariannin ac a arweiniodd aelodau niferus o'i deulu at Grist. Bu cysylltiad clôs ganddo â Chymru drwy gydol ei weinidogaeth, gan ddod i gynnal nifer o ymgyrchoedd cenhadol yma. Daeth i Gymru am y tro cyntaf yn 1977, ac yn ystod ei ymweliad siaradodd â dros 60,000 o bobl. Cynhaliwyd rali fawr yng Nghastell Caerdydd, gydag ef a Cliff Richard yn rhannu'r llwyfan. Dyma atgofion Lowri Ann James, oedd yn y dorf yn y castell:

Cof merch ifanc yn ei harddegau yn mynd gyda'i thad ar gefn moto-beic o'i chartre yn Llanrhyddni i Gastell Caerdydd sydd gen i o ymweliad Luis Palau â Chaerdydd. Roedd Cliff Richard yno'n canu ac roedd hynny'n ddigon i mi. Roedd hi'n noson braf ac yn oer. Dw i ddim yn cofio beth ddywedwyd gan Luis Palau, na chaneuon Cliff Richard, ond dw i'n cofio niferoedd o bobl oddi mewn i furiau'r castell yn gwrando'n astud ar yr hyn gafodd ei ddweud a hwnnw'n tanio cynnwrf mewnol ynof i i holi mwy. Roedd ei neges yn angerddol a minne ddim yn ei ddeall ar y pryd. Ar ôl dychwelyd adre bûm yn effro – a chodais fore trannoeth yn holi un cwestiwn ar ôl y llall wrth fy nhad yn y gegin. Druan ohono! Ro'n i wedi bod yn mynd i gapel ers yn blentyn – ond gwelais rywbeth gwahanol yn y digwyddiad a'r neges – rhywbeth anniffiniadwy yn fy mhrofiad. Creodd argraff: un

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cofio Luis Palau (parhad o dudalen 1)

digwyddiad mewn cyfres ohonynt yn y saithdegau a ddaeth i'm rhan.



Poster hysbysebu ymgyrch Dweud wrth Gymru yn 1989

Yna, yn 1989, daeth yn ôl i'r castell yng Nghaerdydd i fod yn rhan o'r ymgyrch Dweud wrth Gymru / Tell Wales. Bu iddo gynnal nifer o nosweithiau yn y de a'r gogledd, lle cafwyd elfennau Cymraeg, a bu'n rhannu llwyfan â Dr David Enoch, gyda chriw o Gristnogion ifanc Cymraeg, Canu'n Llon, yn arwain yr addoliad mewn cyfres o nosweithiau ym Mangor. Daeth David Enoch i'w adnabod yn dda iawn dros y cyfnod, gan iddynt deithio dros Gymru gyda'i gilydd a rhannu llety. Mae'n ei gofio fel cyfathrebwr pwerus dros ben, ac yn ddyn cywir, diffuant a gonest. Cofiai hefyd i Palau ddweud wrtho fod Cymru yn 'lle caled iawn i rannu'r efengyl' a bod gwrthwynebiad gan rai o blith yr enwadau. Eto, roedd yn ddiolchgar fod tyrfa o 5,000 wedi dod i'w glywed yn annerch ar faes y sioe yn Llanellwedd.

Dyma atgofion Arwel Ellis Jones, oedd yn un o drefnwyr yr ymgyrch:

Daeth Luis Palau i Gymru i arwain ymgyrch Dweud wrth Gymru ym Mai a Mehefin 1989. Ond, roedd yn fwy na chyfres o gyfarfodydd pregethu. Bu gwaith paratoi trylwyr yn dwyn eglwysi ynghyd, sefydlu pwyllgorau lleol, gweddio, dosbarthu taflenni a hyfforddi gwirfoddolwyr. Nid oedd ei ymweliad at ddant pawb: 'pregethu rhy simplistaidd', 'dim digon o sôn am bechod', 'ymgyrch ddrud ac aneffeithiol'!

Fel aelod o bwyllgor lleol ac un o'r ymddiriedolwyr cenedlaethol, roeddwn yn ymwybodol o'r gwendidau ond hefyd yn falch o'r fraint o fod yn rhan o'r gwaith. Ychydig fisoedd wedyn, cefais gyfle

i grynhoi fy marn ar yr ymgyrch mewn erthygl yn y *Cylchgrawn Efengylaidd*. Wrth gofio'r diweddar Luis Palau, fedra i wneud dim gwell na dyfynnu'r hyn a ddywedais wrth gloi'r erthygl honno: 'Fe bregethwyd yr efengyl i nifer sylweddoli o Gymry. Fe gynyddwyd ymwybyddiaeth pobl o Dduw. Fe welwyd yn eglur bod Duw ar waith heddiw yn achub eneidiau. Fe adeiladwyd yr Eglwys nid yn unig trwy gynyddu niferoedd ond trwy roi hwb i Gristnogion mewn hyfforddiant a phrofiad i'w cynorthwyo i ufuddhau i Gomisiwn ein Arglwydd.' Diolch i Dduw am hynny ac am fywyd a gwaith Luis Palau.

Cadeirydd Dweud wrth Gymru am gyfnod oedd y Parch Denis Young. Cofia yntau am y gwaith paratoi manwl ymlaen llaw cyn i Palau gyrraedd, gan gynnwys nifer fawr o gyrddau gweddi, ac atgofion o deithio o gwmpas y gogledd mewn car efo Arfon Jones, gan dynnu trelar efo baner fawr yn hysbysebu'r digwyddiadau, a chorn siarad uchelseinydd yn estyn gwahoddiad i bobl fynychu'r gyfarfodydd. Cofia hefyd fod Neuadd PJ ym Mangor wedi bod yn gyffyrddus lawn ar gyfer y gyfres o ddigwyddiadau.

Un arall sy'n cofio ymweliad Palau yn 1989 yw Gwenno Hughes o Gaernarfon. Meddai: 'Cawsom y fraint o'i weld yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Roedd Duw wedi ein harwain i werthu ein siop ym Mhorthaethwy a symud i Ddyfnaint i weithio ar fferm Gristnogol gan y Gilead Foundation. Ond rhaid oedd teithio 'nôl i wrando ar Luis Palau, gan ein bod wedi edrych ymlaen cymaint at y digwyddiad.'

Derbyniodd wahoddiad eto yn 2004 ar achlysur cofio canmlwyddiant Diwygiad



Canu'n Llon, grŵp addoli o'r 80au, yn arwain yr addoliad yn un o gyfarfodydd lansio'r ymgyrch yn Llandudno. Yn y llun, o'r chwith i'r dde, gwelir Lowri Ann Jones, Delyth Wyn Davies, Arwel Ellis Jones a Nia Williams, gyda'r Parch Denis Young, a oedd yn annerch yn y cyfarfod, yn eistedd yn y cefn.

1904/5. Trefnwyd nifer o gyfarfodydd dathlu dros dridiau o dan yr enw 04theCity, pryd y bu iddo rannu'r llwyfan efo'r gantores *gospel* Nia o Gwynyl Elfed, y canwr Mal Pope a'r awdur deunyddiau defosiynol Selwyn Hughes. Meddai Palau ar y pryd, 'Rydym yn llawenhau bod Duw wedi defnyddio'r ymgyrch hon i rannu'r Newyddion Da gyda dros 3,800 o bobl yn y ddinas!'

Yn 2017 daeth ei fab, Andrew Palau, i Abertawe ar wahoddiad 30 o eglwysi yn y ddinas, a hynny ar gyfer wythnos genhadol o'r enw Shine Swansea. Meddai Andrew, 'Daeth Dad yma am y tro cyntaf yn 1977, gan greu cysylltiad gyda nifer o arweinwyr pan oedd ar daith o'r enw "From Argentina with Thanks". Rhannodd Dad am yr holl bethau da oedd wedi digwydd dros 50 mlynedd ers i'r cenhadon ffyddlon hynny o Gymru ddod i'r Ariannin gan ennill aelodau o'r teulu Palau i Grist.'

Y tro olaf i Luis Palau ddod i Gymru oedd yn 2018, pan ddaeth i annerch mewn digwyddiad mewn eglwys yng Nghaerdydd. Mae David Enoch yn ddiolchgar i Luis Palau am alw heibio i'w weld, ac yn ymfalchïo yn y llun a dynnwyd ohonynt gyda'i gilydd.



Luis Palau gyda Dr David Enoch yn 2018

Erbyn hyn, mae'r Luis Palau Association yn gweithio mewn 70 o wledydd dros y byd, ac mae ei ddau fab, Andrew a Kevin, bellach yn arwain y gwaith hwn.

Drwy'r Beibl Drwy'r Grawys

Cyfes o saith defosiwn gan Joseff Edwards o Gymdeithas y Beibl yn rhoi golwg inni ar ddarlun mawr y Beibl a'n rhan ynddo

Wythnos 6

Ysbryd, pŵer, a chenhadaeth Iesu – hyd eithaf y ddaear

Darllen: Actau 1.1–5, 8

Myfyrio

Mae Peter Parker – a adnabyddir fel Spiderman – yn enwog am grwydro gorwel Efrog Newydd a rhoi curfa iawn i'r dynion drwg. Mae'n dal i fod yn ffefryn gan lawer. Ond pam? Efallai oherwydd bod Peter Parker yn ddyn mor gyffredin yn ei fywyd bob dydd, ac eto o'i fewn mae rhywbeth anghyffredin. Ni ddylai dilynwyr Iesu ddisgwyl synhwyrau corynnaidd a bysedd gludiog unrhyw bryd yn fuan, ond dylent ddisgwyl pŵer a nerth. Mae dilynwyr Iesu yn wirioneddol gyffredin ac yn hynod yr un pryd – pobl gyffredin, ond sydd â phŵer go iawn i wneud llawer o ddaioni.

Beth ydyn ni'n ei ddysgu ar ddechrau Llyfr yr Actau?

Ysgrifennwyd Llyfr yr Actau gan Dr Luc. Felly mae'n ddilyniant i Efengyl Luc, yn dweud wrthym beth ddigwyddodd nesaf. Yr allwedd yw'r cymesuredd. Yn Efengyl Luc, iachaodd Iesu'r rhai oedd yn wael a phregethu'r newyddion da. Nawr yn Llyfr yr Actau, mae dilynwyr Iesu'n iacháu'r rhai oedd yn wael ac yn rhannu newyddion da Iesu gyda'r byd i gyd.

Ond sut mae hynny'n bosib? Sut gall Cristnogion cyffredin wneud y pethau a wnaeth Iesu? Petai rhywun yn dweud wrthy ch am ysgrifennu drama yn union fel y gwnaeth William Shakespeare, neu ganu yn union fel Pavarotti, neu redeg ras cyn gyflymed ag Usain Bolt, byddech yn dweud, 'Does yna ddim siawns i hynny

ddigwydd!' Ac os yw Llyfr yr Actau yn awgrymu y dylech barhau â gweinidogaeth Iesu, efallai mai eich ymateb fydd, 'Alla i ddim!'

Beth mae addewid Iesu i'r disgyblion yn ei olygu i ni heddiw?

Ond beth petai'r Un Ysbryd ag a roddodd nerth a phŵer i Iesu hefyd yn dod i'n nerthu ni ac yn dod i fyw yn ein bywydau ni? Pa wahaniaeth fyddai hynny'n ei wneud?

Mae'r gair 'pŵer' yn yr Actau yn dod o'r gair Groeg *dunamis*, ac o'r gair hwnnw rydym yn cael y geiriau *dynameit* a *dynamig*. Mae'r Ysbryd Glân yn grymuso pobl Dduw i fod yn fodau dynamig dros waith y deyrnas, gan barhau â gweinidogaeth Iesu yn y byd. Sylwch ar ehangder y genhadaeth hon. Mewn oes cyn bod sôn am awyrennau'n teithio o un ochr i'r byd i'r llall, a chyn dyddiau'r We a'r cyfryngau cymdeithasol, comisiynodd Iesu ei bobl i fynd â'r neges hon i bedwar ban byd – hyd eithaf y ddaear. Gorchmynnodd hyn oherwydd ei fod yn gwybod am y gallu a'r pŵer o fewn pob un o'i ddilynwyr. Roedd yn gwybod sut mae tân yn gweithio – mae'n ymledu! A lledodd Cristnogaeth gynnar fel tân gwyllt, er gwaethaf erledigaeth ffyrnig, a daeth achos Iesu Grist yn fudiad byd-eang yn gyflym iawn.

Rydym wedi cyrraedd ein pennod ein hunain yn stori'r Beibl. Dyma lle rydyn ni'n ffitio i mewn, cyffredin fel rydyn ni – ond yn hynod, i gyd yr un pryd. Mae Iesu wedi eich grymuso i wneud daioni yn y byd! Ydych chi'n barod ar gyfer yr her?

Ymateb

Gyda phŵer go iawn yn byw yn och chi drwy'r Ysbryd Glân, sut allech chi wneud daioni yn y byd heddiw?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen drwy'r Actau yr wythnos hon:

Diwrnod 2: Actau 2.1–47

Diwrnod 3: Actau 7.1–60

Diwrnod 4: Actau 9.1–31

Diwrnod 5: Actau 15.1–35

Diwrnod 6: Actau 16.1–40

Diwrnod 7: Actau 28.1–31.

Blwyddyn Covid: lleisiau Cymru

Ddiwedd Mawrth 2020, yn sgil fy ngwaith gyda Banc Bwyd Arfon, cefais wahoddiad gan gwmni teledu i gadw dyddiadur fideo dros yr argyfwng Covid. Eu nod oedd creu rhaglen ddogfen a fyddai'n gofnod o gyfnod rhyfeddol yn hanes Cymru.

Fodd bynnag, yn ogystal â sôn am waith y Banc Bwyd, roedd cyfle i'r ffilmiau gynnwys sylwadau ar fywyd bob dydd, bywyd yr eglwys ac ymateb i rai digwyddiadau mawr a welwyd. Wrth gwrs, gyda hyd at 50 o bobl yn cyfrannu, dim ond cyfran fechan o'r ffilmiau oedd yn medru cael eu cynnwys yn y rhaglen derfynol. Ond roedd y ffilm a ddarlledwyd yn ddarlun byw a real iawn o bobl amrywiol yn wynebu heriau gwahanol dros y cyfnod. Gair o rybudd – dydy e ddim yn wylio hawdd!

Er bod yr argyfwng, ac yn sgil hynny'r ffilmio, wedi para'n llawer hirach nag oedd unrhyw un wedi disgwyl, cefais y ffilmio yn gyfle buddiol i gnoi cil ar gyfnod cwbl unigryw trwy lygaid ffydd. Yn un o'r fideos na chafodd ei ddefnyddio yn y rhaglen derfynol, bûm yn meddwl am ein hysfa i fynd yn ôl i fywyd 'normal'. Tybed ydy hynny'n beth da? Fel y canodd un o fy hoff artistiaid, Bruce Cockburn, 'the trouble with normal is it always gets worse'. Pa normal fyddwn ni isio mynd yn ôl iddo?

Oes yna wersi y mae'r Arglwydd am i ni fod wedi eu dysgu am bethau rydyn ni angen troi cefn arnynt wrth symud i normal newydd? Beth am bethau fel dibyniaeth cymaint o bobl ar fanciau bwyd, pethau fel teithio diangen sy'n



niweidio'r amgylchedd? A beth am ein bywydau sydd mor llawn o bethau eraill fel nad oes gennym amser i'r Arglwydd Iesu, ei hawl ef arnom ni a'i wahoddiad i ni droi ato. Yn Haggai 1:7 mae Duw yn galw arnom i 'ystyried ein ffyrdd' neu, fel mae Beibl.net yn ei gyfieithu: 'Meddyliwch am funud beth dych chi'n wneud!' – meddai'r ARGLWYDD hollbwerus.

Mae'r rhaglen ar gael i'w lawrlwytho neu ei gwyllo ar: <https://www.bbc.co.uk/.../blwyddyn-covid-lleisiau-cymru>.

Arwel Ellis Jones

Dydd Gweddi'r Byd – profi bendith yn lleol eleni eto

Mae'r rhan fwyaf ohonoch yn gwybod bod y mudiad hwn yn un byd-eang, gyda'r gwasanaeth yn cael ei baratoi gan wlad arbennig bob blwyddyn. Y dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth yw'r diwrnod gweddi swyddogol, pryd mae ton o weddi yn teithio o amgylch y byd, o godiad haul hyd ei fachlud, gan ddefnyddio'r un gwasanaeth. Vanuatu oedd y wlad eleni a'r gwasanaeth yn seiliedig ar y thema 'Adeiladwch ar sylfaen gadarn'. Yn 2022 Cymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon fydd yn gyfrifol am baratoi'r gwasanaeth, ar y thema: 'Gwn pa gynlluniau sydd gen i ar eich cyfer'.

Mae ein pwyllgor, sy'n cynnwys dwy o bob enwad, un o'r de ac un o'r gogledd, yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg. Erbyn hyn, is-bwyllgor ydym ni'r Cymry, yn atebol i Bwyllgor Cenedlaethol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gennym gynrychiolydd ar y pwyllgor hwn, sef Gwen Wildman, Llundain. Dyma swyddogion Cymru: Miriam Lewis, llywydd; Margaret Morgan, trysorydd; Y Parchedigion Beti Wyn James a Carys Ann Morris-Lewis,

swyddogion cyhoeddusrwydd; a minnau yn ysgrifennydd.

Pe bai rhywun â diddordeb mewn ymuno hefo'r pwyllgor, cysylltwch ag un o'r swyddogion. Mae gennyf ddiddordeb yn y mudiad am mai ar weddi y mae'r pwyslais, a chredaf fod mwy o angen gweddi arnom rŵan nag erioed o'r blaen.

Mae ein swyddogion cyhoeddusrwydd wedi pwyso ar y pwyllgor cenedlaethol ers blyneddodded i gael y gwasanaeth ar y wefan, yn Gymraeg a Saesneg ochr yn ochr. Yr ateb a dderbynnir yw nad yw hyn yn bosib oherwydd hawlfraint, ond eleni fe brofwyd mor ddiffygiol yw'r drefn bresennol. Gobeithir y bydd pethau'n well erbyn gwasanaeth 2022.

Yn lleol profwyd bendith drwy'r gwasanaeth eleni. Ymunais â



gwasanaethau Zoom Eglwysi Cymraeg Llundain a Gofalaeth Thomas Charles, ardal y Bala, a phrofi bendith ac agosatrwydd. Doedd dim ond angen crybwyll y gwasanaeth wrth ein gweinidog, y Parchedig Carwyn Siddall yng Ngofalaeth Bro Llanuwchllyn, nad oedd wrthi'n trefnu cyn i mi orffen fy sgwrs.

Roedd am gael arddangosfa o wlad Vanuatu yn y sêd fawr, y naw darlennydd i fod yn yr Hen Gapel ar ddydd Mawrth a'r chwe chantores ar y dydd lau. Cyrhaeddodd pawb yn eu mygydau gan gadw pellter cymdeithasol, ac aethom drwy'r rhaglen bob yn un. Yr un fu'r drefn dydd lau, a'r cynnyrch gorffenedig ar YouTube a'r cyfryngau cymdeithasol eraill yn llifo'n rhydd. Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Carwyn Siddall ac i Mr Alwyn Jones am eu gwaith difflino. Rwyf wedi cael negeseuon o ddiolch iddynt o'r Bala, Rhuthun, Wrecsam a Llundain.


Os na welsoch y gwasanaeth, ewch i sianel YouTube Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch: www.youtube.com/watch?v=VyTS8L-4KtM&t=933s

Mae hefyd i'w gael ar dudalen Facebook Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd: www.facebook.com/DyddGweddibydenag

'Yn Nuw y safwn' neu, yn iaith Vanuatu: 'Long God Yumi Stanup'.

Mary Thomas

Ysgrifennydd Is-bwyllgor Cymraeg
Dydd Gweddi'r Byd



Teithio i Fawrth yn Chwefror!

Roedd tair taith i blaned Mawrth wedi ei chyrraedd ym mis Chwefror eleni.

Cyrhaeddodd prob gofod Hope o'r Emiradau Arabaidd Unedig orbit Mawrth ar 9 Chwefror; mae cerbyd gofodol Tsieina, Tianwen-1, wedi cyrraedd orbit y blaned ers y 10fed o'r mis, ac mae Rover NASA, Perseverance, wedi glanio ar y blaned ei hunan ers 18 Chwefror.

Cafodd y tri cherbyd eu lansio fis Gorffennaf y llynedd, a'r bwriad oedd gweld a fu bywyd microbig ar Fawrth erioed, a fydd modd byw yna eto yn y dyfodol, ac nad yw bywyd yn unigryw i'n planed ni.

Mae Elon Musk, prif weithredwr Space X, wedi dweud droeon fod yn 'rhaid i ddynoliaeth ddod yn rhywogaeth amlblaned os y'n ni am oroesi'. Ac mae'n gweithio ar gynllun allai weld miliwn o bobl yn byw ar Fawrth erbyn diwedd y ganrif yma.

Efallai eich bod chi wedi gweld rhai o'r lluniau y mae'r Rover wedi eu tynnu a'u hanfon 'nôl. Glaniodd y cerbyd yn ymyl crater o'r enw Jezero, ac mae un llun 360° wedi ei roi at ei gilydd trwy osod 142 llun ochr yn ochr. Mae pobl NASA a llawer un arall yn llawn cyffro oherwydd y daith ddiweddaraf yma. Ry'n ni'n gweld mwy ac yn deall mwy am y blaned goch.

Gwnaeth hyn i mi feddwl am ryfeddod yr Efyngyl a'r datguddiad o gynllun Duw ar gyfer ei fyd, y cynllun sydd yn cael ei sylweddoli yn Iesu Grist, a'i ddarlunio i ni yn y Beibl. Dywedodd Iesu yn blaen ei fod ef, Mab y Dyn, wedi 'disgyn o'r nef', lle real nad yw ei leoliad yn hysbys i ni ar hyn o bryd. Ac mae'n dweud ei fod wedi dod i ddangos Duw'r Tad i ni, oherwydd mae pwy bynnag sydd wedi ei weld ef wedi gweld y Tad.

Dywedodd hefyd ei fod wedi dod fel ffordd, gwirionedd a bywyd, er mwyn ein

harwain ni at y Tad. Yn wir, fe yw'r unig un all wneud hynny.

Dywedodd ei fod wedi dod i geisio ac achub y rhai oedd ar goll, a heb adnabod Duw oherwydd pechod.

Dywedodd ei fod wedi dod i fod yn was, a rhoi ei fywyd fel pridwerth dros lawer – tâl er mwyn ein gollwng yn rhydd o'n pechod. Daeth i roi ei einioes dros y defaid.


Yna fe atgyfododd a chael ei godi 'nôl i'r nef, ar law dde Duw. Mae yn y nef yn paratoi lle i bob un sy'n credu ynddo. Mae'n eu cynrychioli gerbron Duw ac mae hynny'n sicrhau eu bod yn cael derbyniad Duw a phob bendith sydd ei hangen arny'n nhw. Mae wedi anfon yr Ysbryd Glân er mwyn agor ein llygaid i weld ein hangen ac i weld Iesu ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Mae'r Ysbryd yn aros gyda ni, yn byw ynom ni, yn barod i'n harwain, ein cadw a'n gwneud yn fwy tebyg i Iesu.

Yna daw Iesu i lawr eto, yr ail waith, fel Brenin a Barnwr. Caiff pawb eu codi o'r marw i'w wynebu, a chaiff ei bobl fod gydag ef mewn nef a daear newydd, lle na fydd pechod, marwolaeth na phoen. Caiff yr anghyfiawn eu gosod ar wahân yn uffern gyda Satan a'i lu am byth.

Beth yw cwmpwl o luniau o lwch a cherrig Mawrth o'u cymharu ag adnabod yr Un a ddaeth o'r nef i'n hachub a'n cadw, ac i'n harwain i ogoniant y nef a'r ddaear newydd! Gobeithio ein bod yn llawn cyffro!

John Trehearne

Llun: NASA



Oedfa deuluol dydd Gŵyl Dewi Cylch Eglwysy Llundain

O dan arweiniad Gwyndaf Evans, cawsom oedfa arbennig bore Sul, 28 Chwefror, yma yn Llundain. Cawsom gyflwyniad amrywiol hyfryd o ganu gwerin, chwarae'r delyn a llefaru gan blant Eglwysy Drindod i ddechrau'r oedfa. Buom hefyd yn lwcsu o gael cyflwyniad dyfeisgar a diddorol iawn gan Miriam a Marcus Watling oedd



wedi ysbrydoli'r hen ac ifanc. Bu Miriam yn cyf-weld 'Dewi Sant' mewn ffordd berthnasol a thrawiadol i gyflwyno stori'r nawddsant. I ddilyn, cafwyd cwis i'r plant, a stori'r weddw â'r ddau gopr gyda sesiwn cwestiwn ac ateb i orffen. Oedfa gofiadwy iawn, a diolch i bawb a gymerodd ran.



ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD
AR LWYBR Y GROESCyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref
neu grŵp gan y Parch. Denzil I. JohnMae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd
hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul:
www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 38 – Mair Magdalen

Gweddi

Arglwydd nef a daear, deawn o'r newydd ger dy fron yn ystod yr Wythnos Sanctaidd, yn cofio'r digwyddiadau rhyfeddol sy'n cael eu hadrodd yn yr Efengylau. Ceisiwn gofio yn arbennig adroddiadau dirdynnol yr Efengylau a manylion dydd Gwener y Groglith. Wrth i ni ganolbwyntio heddiw ar ran y gwagedd a ddangosodd y fath deyrngarwch i'r lesu mewn dyddiau anodd, gweddiwn am weledigaeth ynghylch sut allwn ni gefnogi merched yn benodol, a'r di-rym yn gyffredinol, yng ngwledydd y byd. Helpa ni i weld lesu yng nghanol pob sefyllfa, yn berson gwylaidd ac urddasol, a gydymdeimlai â gwendid eraill, ac yntau ei hun yn gywybod beth oedd yn ei wynebu. Amen.

Darllen

Luc 8:1-3; Mathew 27:45-56

Cyflwyniad

Ceir sawl nodwedd chwyldroadol yn yr Efengylau nad oedd modd i neb eu rhag-weld, ac un ohonynt oedd y modd y bu i'r lesu gynnwys gwagedd a phlant yn ei fywyd. Yn ein cyfnod ni, byddai'n wrthun clywed am unrhyw un yn dibrisio gwagedd a phlant, ac eto, mewn diwyllianau eraill dangosir diffyg parch tuag atyn nhw.

Wrth feddwl am sawl gwlad Fwslemaidd, neu mewn cymunedau â chrefyddau sy'n arddel amldduwiaeth yn y Dwyrain Pell neu ar gyfandir Affrica, nid yw'r wraig a'i phlant fawr mwy na gweision. Nhw sy'n gorfod gwneud y gwaith llafurus a pheryglus. Rhoddodd lesu le amlwg i

wragedd yn ei fywyd, ac roedd yn nodedig am groesawu plant a'u bendithio.

Ym Mair Magdalen, gwelwn berson a gynrychiolai'r haen ddifreintiedig, ac roedd hithau gyda Mair, gwraig Cleopas a mam Iago Fychan, Salome a Mair, mam Iesu, yn bobl a ddilynodd Iesu a'i ddisgyblion a gweini arnyn nhw. Rhaid bod ganddynt incwm o rywle, gan fod yr Efengylau yn nodi iddyn nhw wneud popeth ar eu cost eu hunain. Tanlinellodd y pedwar efengylwydd y parch a ddangosodd Iesu iddyn nhw, a nodwn i'r efengylwyr bwysleisio i'r gwagedd hyn fod yn gyson eu cefnogaeth ar hyd y tair blynedd. Roedden nhw'n dystion i'r croeshoelio ac yn bresennol yng ngardd yr Atgyfodiad, ac wedi gweld y bedd gwag. Roedd Iesu wedi iacháu Mair Magdalen o salwch meddwl, os dyna oedd natur yr hyn a alwyd yn 'saith cythraul a ddaeth allan ohoni'. Roedd ei thaerineb yn ysbrydoliaeth i bawb, a myfyriwn ar hynny heddiw.

Myfyrdod

Mae'n amlwg fod gan yr efengylwyr feddwl uchel o Mair, un o bentref Magdale, pentref ar ochr Llyn Galilea. Rhaid bod ganddi incwm personol – rhywbeth anarferol i wragedd ei chyfnod – gan ei bod wedi medru fforddio teithio gydag Iesu a chyfrannu tuag at ei chostau ei hun. Beth oedd ymateb y Pharisaid o weld presenoldeb cynifer o wragedd yn teithio gydag Iesu? Beth hefyd oedd adwaith y sawl a ddarllenai'r Efengylau hyn yn chwarter olaf y ganrif gyntaf? Roedd Iesu yn chwyldroadol – a nodi'r hyn sy'n amlwg.

Aeth yn ffasiynol i bortreadu Mair fel putain gan rai carfanau eglwysig, er nad

oes sylfaen Feiblaidd i ddweud hynny. Rhannai Iesu ei fendith â phobl o bob haen gymdeithasol, a hefyd â gwagedd o bob oed mewn sefyllfaedd amrywiol. Bu'r byd yn araf i dderbyn hyn, a dioddefodd gwagedd anghyfiawnder dybryd mewn eglwys a chymdeithas fel ei gilydd ar draws y canrifoedd.

Beth tybed a ddywed Iesu wrth yr eglwysi sy'n gwahaniaethu rhwng gwyr a gwagedd heddiw? Wrth ddathlu'r Pasg eleni, a diolch bod Iesu wedi agor drws gobaith i ni gael rhannu cymuned â Duw, gweddiwn y caiff merched bro a byd brofi cyfiawnder a pharch ym mhob man.

Gweddi

Dduw gras a chyfiawnder, diolchwn am brofiad y Pasg a'r sicrwydd mewnol fod Iesu'n fyw ac yn uniaethu ei hun â phobloedd daear. Boed i'r rhai sydd wedi eu hesgeuluso a'u hamharchu deimlo bod newid yn agweddau pobl a bod alawon gobaith yn canu lle y maent. Diolch am deyrngarwch y gwagedd wrth y groes, a boed i ni ymroi i arfer teyrngarwch i'r eglwys ac i dystiolaeth Iesu yn ein broydd. Amen.

Trafod ac ymateb

- Mae'r fintai a gyd-deithiai ag Iesu yn ymddangos yn un anghyffredin yn yr oes honno (Luc 8:1-3). A oes unrhyw beth yn anghyffredin yn y fintai sy'n ei ganlyn heddiw, o'n profiad ni?
- Roedd y merched a fu wrth y groes wedi torri eu calonnau, ond eto'n para'n ffyddlon ac unedig (Mathew 27:55,56). Beth a'u cadwodd ynghyd? A oes anogaeth i ni yma yn ein sefyllfaedd fel eglwysi yn ystod tristwch a gofid y pandemig?

S4C

Sul, 28 Mawrth, Sul y Blodau
Oedfa Dechrau Canu, Dechrau Canmol am 11:00yb ar Sul y
Blodau gyda'r Parch. Carwyn Siddall, Llanuwchllyn.

Dechrau Canu, Dechrau Canmol, nos Sul, am 7:30yh
Yr wythnos yma byddwn yn nodi Sul y Blodau. Y Parchedig Delyth Wilson
fydd yn trafod hanes a phwysigrwydd y diwrnod arbennig yma.

Ceir mynediad i gylchlythyr mis Mawrth o Dechrau Canu, Dechrau
Canmol o ddilyn y ddolen hon:
<https://spark.adobe.com/page/I2na2zOu0ib18/>

BBC radio
cymru

Sul, 28 Mawrth, Sul y Blodau
Caniadaeth y Cysegr am 7:30yb a 4:30yp
Yr ail raglen, gyda'r pedwarawd – Naomi Griffiths,
Sioned Mai Watkins, Aled Wyn Thomas a Rhys
Griffiths – yn ymuno gyda chyfeillion i ganu
detholiad o emynau. Branwen Gwyn sy'n cyflwyno.

Oedfa Radio Cymru am 12:00yp yng ngofal
Angharad Tomos, Pen-y-groes, Gwynedd.



Gŵyl Llanw'n paratoi mewn gweddi

Am 24 awr, o 8yh 31 Mawrth tan 8yh 1 Ebrill, bydd Gŵyl Gristnogol Llanw, mewn partneriaeth â Chanolfan Ffald y Brenin, yn arwain diwrnod o weddi ac addoliad dros ein cymunedau, dros Gymru a thros ein byd. Bydd hyn i baratoi ar gyfer yr ŵyl rithiol i ddathlu'r Atgyfodiad a gynhelir eleni rhwng Ebrill 5ed a'r 8fed.

Gofynnir ichi ymuno drwy gofrestru ar: <http://llanw.org/gweddi/>

Cofio Euryrn Ogwen Williams

Ym marwolaeth Euryrn Ogwen Williams rai dyddiau yn ôl, colodd Cymru un a gyfrannodd yn sylweddol iawn i fywyd ein cenedl. Ar hyd ei oes bu ei ffydd yn bwysig iawn iddo, a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn eglwys y Tabernacl yn y Barri, lle bu'n ysgrifennydd cydwybodol a blaengar ar yr eglwys ac yn olygydd gofalus o'r *Ddolen*, sef papur misol y capel.



Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth, *Pelydrau Pell a Tywod a Sglodion*, ac yn ystod y cyfnod clo bu'n brysur yn cyfansoddi emynau cyfoes ac amserol. Mae'r rheini bellach yn cael eu perfformio gan Siân Meinir ar ei sianel Youtube, a gellir gweld deg emyn diweddar o'i eiddo drwy glicio ar:

<https://www.youtube.com/channel/UCOSb4DMdRs9C3YR95sA800w/videos>

Diolchwn am ei gyfraniad i fywyd ein cenedl, a chydymdeimlwn yn ddwys iawn â Jennie, Rhodri a Sara a'r teulu oll. Yma, mae Arwel Ellis Owen yn rhannu ei atgofion amdano:

Dwi'n cofio yn dda y tro cyntaf i mi gyfarfod Euryrn Ogwen, a hynny 'nôl yn y chwedegau cynnar. Mi roedd o'n llywydd y myfyrwr ym Mangor a minnau yn yr un swydd yn y Coleg ger y Lli, yn Aberystwyth. Mi ymunodd o â TWW ac yna HTV, ac mi es innau i weithio fel cyw newyddiadurwr gyda'r Gorfforaeth. Bryd hynny doedd 'na fawr o gyfathrebu rhwng y ddau ddarledwr, ond gan ein bod ni ill dau yn ifanc ac o leiaf am geisio creu argraff yn ein gwahanol alwedigaethau, mi roedd Euryrn yn un roeddwn i'n cadw llygad barcud arno.

Lle oeddwn i'n tueddu i fynd i gyfeiriad gwleidyddiaeth, newyddion a materion cyfoes, mi roedd Euryrn yn canolbwyntio ar raglenni dogfen am unigolion a chymunedau. Mi roedd dylanwad Gwyn Erfyl i'w weld yn glir yn ei gynyrchiadau. Dyn felly oedd Euryrn, hawdd i'w nabod, parod ei gymwynas, ac yn angerddol dros y peth. Yn aml-dalentog mewn nifer o wahanol

sgiliau, ond yr un blaenaf oedd ei ddawn i gyfathrebu yn naturiol ddigon gyda phawb. Roedd ei wên mor groesawgar â'i law, oedd yn aml yn mynd yn syth am yr ysgwydd yn hytrach na'r llaw, gan eich tynnu i fewn i'w gwmniaeth radlon.

Fe ddaeth y profiad o wneud rhaglenni ac o drin pobl – boed nhw'n gyd-weithwyr neu'n gyfranwyr – i'r amlwg pan ymunodd fel dirprwy Owen Edwards ar ddechrau S4C. Doedd gan Owen fawr o syniad sut i wneud rhaglenni, na pa fath o raglenni fyddai'n apelio at gynulleidfa'r sianel newydd. Euryrn oedd â'r weledigaeth, a'i gyd-weithwyr greodd y strategaeth ddaeth â chymaint o lwyddiant i'r gwasanaeth yn y blynyddoedd cynnar. Gwerthu'r sianel oedd gorchwyl Owen, ac fe wnaeth hynny'n rhyfeddol, i wleidyddion, darledwyr eraill a'r cyhoedd yma yng Nghymru. Un peth oedd cael syniadau da; sialens arall oedd cael y perfformwyr, y cyfarwyddwyr, hyd yn oed y cyllid, i wireddu'r freuddwyd. Euryrn sicrhaodd fod sylfeini'r busnes o ddarleddu yn solet. Fo negydd y telerau hollbwysig gyda'r undebau darleddu. Euryrn weithiodd i sicrhau bod unigolion oedd am fentro sefydlu cwmnïau annibynnol yn cael y cyfle a'r anogaeth i dorri'n rhydd o afael y darledwyr cydnabyddedig.

Pan ddaeth hi yn amser i mi adael y BBC, daeth Euryrn ar y ffôn yn cynnig sgwrs dros ginio. Un felly oedd o – yn byrlymu o frwdfrydedd ac yn awyddus i gynnig help llaw i bwy bynnag. Dyna wnaeth ei yrru i helpu Alba yn yr Alban, a TG4 yn Iwerddon, heb sôn am Lywodraeth San Steffan, i ddeall yn well gyfrinach llwyddiant darleddu mewn iaith leiafrifol mewn oes ddigidol.

Y tro diwetha i mi ei gyfarfod oedd mewn siop ddillad yn Trefdraeth, ac ar wahân i ofyn fy marn am ryw ddilledyn roedd o'n ystyried ei brynu, dyma ddiolch i mi am lenwi Sul yn ei le ym Mhenarth, pan oedd o ddim yn teimlo ar ei orau. Dyma finne yn ail-ddweud fy stori am gyfarfod Syr Ifan a Lady Edwards, yn fuan wedi i mi ymuno â thim *Heddiw* ar ôl i Owen Edwards adael am swydd weinyddol.


'Dyma Arwel,' meddai Geraint Stanley Jones, 'sydd wedi dod i lenwi sgidie Owen yn *Heddiw*.'

'I drio llenwi sgidie Owen, da chi'n meddwl,' meddai'r Fonesig. A thrio, yn ddigon annigonol, wnes i ym Mhenarth, hefyd.

Arwel Ellis Owen

Colli cyfrannwr i faes crefydd a gwyddoniaeth

Mae'n debyg y bydd enw Dr John Polkinghorne a fu farw dros y Sul, yn 90 oed, yn enw dieithr i'r rhan fwyaf o ddarlennwyr *Cenn@d*. Ond mae'n haeddu ein sylw heddiw am ei gyfraniad arloesol i fydd 'crefydd a gwyddoniaeth'. Llwyddodd i gyfuno dwy yrfa: fel offeiriad Anglicanaidd ac fel gwyddonydd a arbenigodd ym maes Ffiseg Ddamcaniaethol.



Wedi gyrfa academiaidd ddisglair, bu'n Athro mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Caergrawnt rhwng 1958 ac 1979, pan ymddiswyddodd er mwyn paratoi ar gyfer urddau offeiriadol. Gwasanaethodd mewn plwyfi ym Mryste ac yng Nghaint, cyn dychwelyd i Gaergrawnt fel Deon yng Nghapel Neuadd y Drindod a Llywydd Coleg y Frenhines. Rhwng 1994 a 2005 bu'n ganon diwinydd yng Nghadeirlan Lerpwl. Cafodd ei urddo'n farchog yn 1997 ac enillodd wobr Templeton yn 2002, gan gyflwyno'r wobwr o £1m i nifer o sefydliadau academiaidd.

Cyhoeddodd nifer sylweddol o gyfrolau, llawer ohonynt yn ymwneud â pherthynas crefydd a gwyddoniaeth. Credai nad yr un yw gwybodaeth wyddonol a diwinyddol.

'Rwy'n meddwl,' meddai, 'bod angen i ni gadw dau beth ar wahân: mae athrawiaeth y Creu yn wahanol i gosmoleg wyddonol, ac fe ddylem wrthsefyll y demtasiwn, y mae rhai gwyddonwyr yn syrthio iddi, o geisio cymathu cysyniadau diwinyddol â chysyniadau gwyddonol.'

Er y gwahaniaeth rhwng y ddwy sffêr, credai nad oeddent yn groes i'w gilydd:

Y mae gwyddoniaeth a chrefydd ... yn gyfeillion nid yn elynion, yn yr ymdrech am wybodaeth sy'n gyffredin iddynt. Efallai y bydd rhai yn cael eu synnu gan hyn, oherwydd y mae yna deimlad drwy ein cymdeithas fod cred crefyddol yn hen ffasiwn, neu'n gyfan gwbl amhosibl mewn 'oes wyddonol'. Nid wyf yn cytuno. Yn wir, fe fyddwn yn mynd mor bell â dweud hyn: pe byddai pobl yn yr hyn a elwir yn 'oes wyddonol' yn gwybod ychydig mwy am wyddoniaeth nag y maent yn ei wybod go iawn, byddent yn ei ffeindio'n rhyddach i rannu fy safbwyntiau innau.

Cawn flas ar y testun 'Cyfeillgarwch gwyddoniaeth a chrefydd' mewn anerchiad gan y Parch Ddr John Polkinghorne ar <https://www.youtube.com/watch?v=nFrYXr8JYgU>

RWJ

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Darllen yr arwyddion

Gwedd

Arglwydd, boed i fyfyrddodau ein calonnau fod yn gymeradwy ger dy fron, drwy'r Ysbryd Glân, yn enw Iesu Grist, Amen.

Emyn 238: 'Ymlaen, ymlaen'

Cyflwyniad

Roedd Gŵyl y Pasg gerllaw. A chofiai'r genedl am eu rhyddhad o ormes Pharo a'r Aiff, am aberthu oen y Pasg, a'r Exodus.

Atgoffai ymdaith Iesu i Jerwsalem y dorf am fuddugoliaeth wleidyddol Jwdas Macabeus dros eu goresgynwyr, bron i ddwy ganrif ynghynt. (Hyd heddiw mae gŵyl Hanukkah yn cofio puro'r deml oedd wedi ei halogi.) Wedi'r fuddugoliaeth filwrol, croesawyd Jwdas i'r ddinas gan dorfeydd gorfoleddus a dorrodd ganghennau er mwyn cael ymuno yn y dathliad. Dyma'r gefnlen i'r ymdaith ar Sul y Blodau.

Gydag ychydig bach o ddychmyg gallwn ail-greu'r cyffro a lanwodd Jerwsalem pan ymdeithiodd Iesu i mewn iddi. Gallwn ddychmygu'r don o obaith gwleidyddol am ddyfodiad brenin i oresgyn y Rhufeiniaid efallai. Gyda'r symbyliad cywir, gallai'r brwdfrydedd gwleidyddol a'r disgwyliad ysbrydol a thymor y Pasg, o'u cyfuno, fod wedi troi'n chwyldro.

Darlleniad: Ioan 12:9-19 – Yr ymdaith fuddugoliaethus i mewn i Jerwsalem

Myfyrddod

Un o'r pethau rhyfeddaf am ddarllen hanes yw ein bod yn darllen am rai oedd, yng nghanol y digwyddiadau, ar y pryd, prin yn sylweddoli mawredd neu arwyddocâd yr amgylchiadau oedd wedi eu goresgyn. Edrych yn ôl ar y digwyddiad sy'n caniatáu i ni ddeall arwyddocâd rhyw air neu ystum neu weithred, neu bolisi gwleidyddol.

Ac mae'r cynllwynio a'r cyffro arweiniodd at groeshoeliad Crist Iesu yn llawn o ddigwyddiadau tebyg.

Dacw Caiaffas yn condemnio Iesu gyda geiriau proffwydol mai mwy buddiol oedd tranc un na thranc cenedl (11:46-50). Dim ond yn ddiweddarach, wedi'r croeshoeliad, y deallwyd posibilidadau ei eiriau.

Tystion i weithredoedd Iesu

Pam roedd cymaint o dyrfa wedi troi allan i groesawu Iesu'r diwrnod hwnnw? Tystion i atgyfodiad Lasarus, meddai Ioan, oedd wedi cario'r hanes fel bod yr arwydd wedi cyfareddu'r tyrfaoedd (adn 17-18). Pwy oedd hwn oedd â'r fath allu ganddo i gynnig bywyd newydd i un oedd wedi trengi?

Corff o bobl na allant fod yn fud yw eglwys Iesu Grist. Gafaelodd grym 'bywyd' ynom.

A'n llawenydd pennaf, fel angylion y nef ei hun, yw tystio i ogoniant Iesu, a gweld unigolion a chymunedau'n cael eu trawsffurfio gan fywyd Iesu. Tlodi ein profiad ni, yn ôl un arbenigwr yn hanes cenadaethau'r eglwys, yw'r hyn sy'n cloi ein tafodau rhag canmol ddydd a nos, a 'dweud wrth bob creadur / am rinwedd gwaed y groes'.

Perygl dwyn tystiolaeth

Nid digon gan wrthwynebwyd Iesu oedd ceisio'i ddifa a'i ladd. Fel yn hanes Lasarus (12:10), buan y cynhwysir y rhai sy'n brofiadol ac sy'n tystio i'w ddaioni yn yr awydd i'w ddifa. Chwythu bygythion anghuol yn erbyn yr eglwys arweiniodd Saul o Darsus i geisio'r Cristnogion cynnar yn Namascus i'w carcharu a'i lladd.

Ar hyd hanes Cymru ceir enghreifftiau o rai a ddiodeffodd dros eu ffydd. Ac ar draws wyneb daear ceir manau lle gall tystio i enw Iesu arwain at dorri pob perthynas â'ch teulu, at golli swyddi, at garchariad, a hyd yn oed at farwolaeth (<https://barnabasfund.org/>).

Ond yr oedd nifer o 'arwyddion' heblaw am bresenoldeb Lasarus i'w darllen y diwrnod hwnnw.

Arwydd 1: Tyst proffwydol i ogoniant Iesu – Y Salmu

Wrth groesawu Iesu dechreuodd y dorf ganu'r geiriau o Salm 118:25 ymlaen:

Yr ydym yn erfyn, ARGLWYDD, achub ni; yr ydym yn erfyn, ARGLWYDD, rho lwyddiant.

Bendigeid yw'r un sy'n dod yn enw'r ARGLWYDD.

Bendithiwn chwi o dŷ'r ARGLWYDD.

Yr ARGLWYDD sydd Dduw, rhoes oleuni i mi.

Â changau ymunwch yn yr orymdaith hyd at gyrn yr allor.

Yn ddiarwybod bron, daeth yr hwn oedd yn cyflawni dyhead y cenedlaethau, y goleuni, yr hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd at ei bobl, mewn gorymdaith i fan yr aberth.

Dacw'r 'un sy'n dod yn enw'r Arglwydd'. Ac mae'n gwbl deilwng o'n mawl: bendigeid fyddo'r Iesu.

Arwydd 2: Tystion proffwydol i Iesu – Sechareia

Ganrifioedd cyn ei ddyfodiad, roedd Sechareia (pennod 9) wedi rhagweld y dydd y deuai'r Crist i deyrnasu: "Llawenha'n fawr, ferch Seion; bloeddia'n uchel, ferch Jerwsalem. Wele dy frenin yn dod atat â buddugoliaeth a gwardigaeth,

yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ar ebol, llwdn asen."

Nodwedd gyntaf y brenin hwn oedd ei fod yn 'ostyngedig' ac nid yn rhwysgfawr fel ymerawdwr y byd. Fel un gostyngedig y cyflwynodd Iesu ei hun wrth bregethu ac wrth wahodd pobl ato i ymddiried ynddo (Mathew 11:28). Mewn gostyngeddrwydd y marchogodd Iesu i'w ddyrchafiad a'i ogoneddu ar groes.

Ail nodwedd y brenin oedd y deuai â 'buddugoliaeth'. Argyhoeddiad tystion i atgyfodiad Iesu Grist, a chred yr Eglwys Fore oedd mai buddugoliaeth oedd concwest Iesu Grist ar y groes (Colosiaid 2:14-15).

Trydedd nodwedd ei ddyfodiad oedd y deuai 'llawenydd' yn sgil ei deyrnasiad. Ar Sul y Blodau cyntaf hwnnw ymdeithiodd y brenin gostyngedig, oedd yn gyflawniad disgwyliad mawl a dyheadau pobl Dduw ar lwybr ei ogoneddiad creulon, buddugoliaethus.

Darllen yr arwydd

Nid oeddy disgylbion yn deall arwyddocâd hyn ar y pryd. Sut allen nhw? Ond wedi'r croeshoeliad a'r atgyfodiad, 'cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig amdano, ac iddynt eu gwneud iddo' (adn 16).

Mor ogoneddus oedd ei ddyfodiad nes i'r Phariseaid ddatgan: 'Edrychwch, nid ydych yn llwyddo o gwbl. Aeth y byd i gyd ar ei ôl ef.'

Yn ddiweddarach, ac yntau'n henwr wedi ei gaethiwo ar ynys Patmos, datguddiwyd i Ioan ogoniant presennol ei Arglwydd (Datguddiad 5:9; 7:9 ymlaen). Nid brenin na gwardwr, prynwr nac arglwydd hil na chenedl yw'r hwn sy'n teyrnasu, ond arglwydd, brenin, gwardwr, a phrynwr pob oes.

Gwedd

Oruchaf Arglwydd, sefydlaist dy ogoniant dros bob peth yn y greadigaeth fel ei chrêwr a'i chynhaliwr. Sefydlaist dy frenhiniaeth yng nghalonau dy bobl, nid drwy rym a choncwest na gorfodaeth, ond trwy wahoddiad gostyngedig dy Fab gostyngedig. Drwy dy Ysbryd Glân, caniatâ i ninnau'r gallu i ymuno ym mhrosesiwn dy fuddugoliaeth, ynghyd â'th eglwys fuddugoliaethus a'th eglwys ddaearol sydd wastad dan ei phwn. A diolchwn fod dy frenhiniaeth di yn fwy nag y medrwn ei dychmygu, yn cynnwys pobloedd a brynaist i Dduw â'th waed o bob cenedl, llwyth ac iaith.

Gogonedda dy hun eto heddiw, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Emyn 246: 'Duw, teyrnasa ar y ddaear'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)